CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 580 (Cy.52)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran I o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, gostyngir y swm sy'n daladwy o ran y dreth gyngor os yw person sy'n preswylio mewn annedd yn teilyngu cael ei ddiystyru at ddibenion disgownt. Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1992 yn darparu i ddosbarthau o bersonau gymhwyso at ddibenion disgownt. Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) 1992 ("Gorchymyn 1992") yn gwneud darpariaeth bellach ynglyn â rhai o'r dosbarthau hynny.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhannau I a II o Atodlen 1 i Orchymyn 1992 o ran prentisiad a myfyrwyr. Mae Erthygl 4 yn diwygio Rhan I o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw o ran sefydliadau ar gyfer myfyrwyr.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn, ac mae ar gael o Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn 02920825111).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 580 (W.52)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under Part I of the Local Government Finance Act 1992, the amount payable for council tax is reduced where a person resident in a dwelling falls to be disregarded for the purpose of discount. Schedule 1 to the 1992 Act provides for classes of persons to qualify for the purpose of discount. The Council Tax (Discount Disregards) Order 1992 ("the 1992 Order") makes further provision in relation to certain of those classes.

Article 3 of this Order amends Parts I and II of Schedule 1 to the 1992 Order in respect of apprentices and students. Article 4 amends Part I of Schedule 2 to that Order in respect of establishments for students.

A regulatory appraisal has been carried out in connection with this Order and is available from the Local Government Finance Division, Department for Local Government and Culture, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (telephone 02920 825111).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 580 (Cy.52)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *27 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraffau 4 a 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007, a daw i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Gorchymyn 1992" ("the 1992 Order") yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) 1992(**3**).

**Diwygio**

**2**. Diwygir Gorchymyn 1992 yn unol â'r canlynol.

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y paragraffau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnod ar gyfer y Ddeddf hon yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw.

(**3**) O.S. 1992/548, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1996/971; O.S. 1996/3143; O.S. 1997/656; O.S. 1998/291; O.S. 2003/673 (Cy. 83) and O.S. 2004/2921 (Cy. 260).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 580 (W.52)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 February 2007* |
| *Coming into force* | *1 April 2007* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State under paragraphs 4 and 5 of Schedule 1 to the Local Government Finance Act 1992(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales(**2**), makes the following Order:

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) The title of this Order is the Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2007, and it comes into force on 1 April 2007.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) In this Order "the 1992 Order" ("Gorchymyn 1992") means the Council Tax (Discount Disregards) Order 1992(**3**).

**Amendment**

**2**. The 1992 Order is amended in accordance with the following.

(**1**) 1992 c.14.

(**2**) The functions of the Secretary of State under these paragraphs were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); *see* the entry for this Act in Schedule 1 to that Order.

(**3**) S.I. 1992/548, as amended by S.I. 1994/543; S.I. 1995/619; S.I. 1996/636; S.I. 1996/971; S.I. 1996/3143; S.I. 1997/656; S.I. 1998/291; S.I. 2003/673 (W. 83) and S.I. 2004/2921 (W. 260).

**Atodlen 1**

**3**.-(1) Yn Rhan I (Prentisiaid) o Atodlen 1 (Diffiniad o fyfyrwyr, etc.) i Orchymyn 1992, ym mharagraff 1 diwygier y canlynol-

(a) Yn is-baragraff (1)(b), yn lle "National Council for Vocational Qualifications" rhodder "National Assembly for Wales or the Qualifications and Curriculum Authority";

(b) Dileer is-baragraff (1)(c)(i); ac

(c) Yn is-baragraff (1)(c)(ii), yn lle "no more than £160 per week" rhodder "employed at a salary or in receipt of an allowance or both, which are, in total no more than £195 per week".

(2) Yn Rhan II (Myfyrwyr) o Atodlen 1 i Orchymyn 1992 ym mharagraff 2(a), yn lle "Central Bureau for Educational Visits and Exchanges" rhodder "British Council".

**Atodlen 2**

**4**. Yn Rhan I (Sefydliadau ar gyfer myfyrwyr) o Atodlen 2 (Sefydliadau addysgol rhagnodedig) i Orchymyn 1992-

(1) Ym mharagraff 1, yn lle is-baragraff (d) rhodder "institutions within the higher education sector, as defined in section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992(**1**)".

(2) Ym mharagraff 2, o dan y diffiniad o "further education", yn lle "the Education Act 1944" rhodder "section 2 of the Education Act 1996(**2**)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

27 Chwefror 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Schedule 1**

**3**.-(1) In Part I (Apprentices) of Schedule 1 (Definition of students, etc.) to the 1992 Order, in paragraph 1 amend the following-

(a) In sub-paragraph (1)(b), for the "National Council for Vocational Qualifications" substitute "National Assembly for Wales or the Qualifications and Curriculum Authority";

(b) Delete sub-paragraph (1)(c)(i); and

(c) In sub-paragraph (1)(c)(ii), for "no more than £160 per week", substitute "employed at a salary or in receipt of an allowance or both, which are, in total no more than £195 per week".

(2) In Part II (Students) of Schedule 1 to the 1992 Order in paragraph 2(a), for "Central Bureau for Educational Visits and Exchanges" substitute "British Council".

**Schedule 2**

**4**. In Part I (Establishments for students) of Schedule 2 (Prescribed educational establishments) to the 1992 Order-

(1) In paragraph 1, for sub-paragraph (d) substitute "institutions within the higher education sector, as defined in section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992(**1**)".

(2) In paragraph 2, under the definition of "further education", for "the Education Act 1944" substitute "section 2 of the Education Act 1996(**2**)".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

27 February 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1992 p.13.

(**2**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 2(2A) a (2B) gan adran 110(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21). Amnewidiwyd adran 2(1) gan adran 156(2) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Mewnosodwyd adran 2(6A) gan adran 177(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd adran 2(2A), (2B), (3) a (4) gan adran 177(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 7 iddi, paragraff 33 o Atodlen 21 iddi, ac Atodlen 22 iddi.

(**3**) 1998 p.38

(**1**) 1992 c.13.

(**2**) 1996 c.56. Section 2(2A) and (2B) were inserted by section 110(1) of the Learning and Skills Act 2000 (c.21). Section 2(1) was substituted by section 156(2) of the Education Act 2002 (c.32). Section 2(6A) was inserted by section 177(1) and (3) of the Education Act 2002. Section 2(2A), (2B), (3) and (4) were amended by section 177(1) and (2) of, Schedule 7 to, paragraph 33 of Schedule 21 to, and Schedule 22 to the Education Act 2002.

(**3**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 580 (Cy.52)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 580 (W.52)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0027/03/07 ON